## Sut y gallwn fynd i'r Nefoedd

Ie, dyna'r cwestiwn! – y cwestiwn pwysicaf yn y byd, yn ôl honiad Soren Kierkegaard unwaith. Ac y mae'n gwestiwn; oherwydd nid y nefoedd yw lle dyn wrth natur. Lle dyn wrth natur yw gyda Gelyn Duw yn y pwll diwaelod. Y mae dyn yntau'n wrthryfelwr yn erbyn Duw ac wedi derbyn dedfryd marwolaeth dragwyddol am ei wrthryfel. Ond mesur cariad Duw tuag at ddyn yw iddo ddod ei hun yn ddyn yn ei Fab, a dioddef y farwolaeth honno yn lle dyn. Bellach er mai anghyfiawn yw dyn, a heb le i obeithio am ddim ond cael cau porth y nefoedd yn ei wyneb am byth, y mae Crist yn cynnig iddo ei gyfiawnder Ef ei hun, a mynediad i'r nefoedd yng nghysgod y cyfiawnder hwnnw. Nid yw'n gofyn dim gan ddyn ond ei fod yn troi cefn ar ei anghyfiawnder cynhenid, ac yn arbennig ar unrhyw weddillion cyfiawnder y mae o hyd yn tybio eu bod ganddo (y tlodion yn yr ysbryd yn unig biau teyrnas nefoedd); ac yna ymddiried yn syml yng Nghrist y rhydd iddo, yn ôl ei addewid, faddeuant a chymod â Duw, a bywyd newydd yr Ysbryd Glân i'w helpu ar ei daith. Dyna'r newid cyfeiriad sylfaenol. O hyn allan, nid llithro i lawr goriwaered natur tua'r Pwll y bydd y dyn, ond dringo'n araf a chlunherciog ddigon tua'r Porth, a hynny

'Er cwyno lawer canwaith – a gweled
Twyll y galon ddiffaith'.

A pheidied neb â meddwl mai rhyw fywyd aflawen ac 'arallfydol' yw'r bywyd newydd hwn. I'r gwrthwyneb, o'i fyw yn iawn, dyma'r unig fywyd sy'n cyfrannu gwir lawenydd, a dyma'r bywyd hefyd, yn anad yr un, sy'n gadael ei ôl er gwell ar y byd hwn: y tlodion yn yr ysbryd piau teyrnas nefoedd ond hwy, hefyd, yw halen y ddaear.

'Llawenhewch oherwydd fod eich enwau wedi eu sgrifennu yn y nefoedd', meddai Crist wrth ei ddisgyblion unwaith. Ac meddai Paul, 'Y mae arnaf awydd ymadael a bod gyda Christ, gan fod hynny'n llawer iawn gwell'. Tybed a wyddom ni rywbeth am y llawenydd a'r awydd yma?

***Dr R. Geraint Gruffydd***